north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL - GOGLEDD CYMRU

**BRÏFF CRYNO AR GYFER Y PWYLLGOR ECONOMI, ISADEILEDD A SGILIAU (07.07.17)**

**Cefndir Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Mae ffrwd gwaith Sgiliau a Chyflogaeth sefydledig Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) wedi'i fabwysiadu a'i gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel un o'r tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh), ac mae'n parhau â'i ddull cyfredol o ymgysylltiad sy'n cael ei arwain gan yr economi a chyflogwyr, er mwyn hysbysu a gyrru'r rhaglen sgiliau a chyflogaeth yng Ngogledd Cymru.

Mae'r cyflawni a'r ffocws parhaus o fewn dull Tîm Gogledd Cymru wedi golygu mai ni yw'r unig PSRh yng Nghymru i dderbyn cydnabyddiaeth genedlaethol am ein gwaith ar gydweithio â chyflogwyr byd-eang a lleol ar brosiect sydd wedi'i gwblhau ag iddo arwyddocâd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Yn 2016, enillom 'Wobr Adeiladu Arbenigedd yng Nghymru' am 'Arweinyddiaeth a Datblygu Pobl', am gydweithio â'n partneriaid ar ddatblygiad CEM Berwyn yn Wrecsam. Mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar raglen bwrpasol o 'froceriaeth sgiliau' a ddefnyddiwyd yn Wrecsam i hysbysu cyfleoedd cyflogaeth, prentisiaethau a lleoliadau gwaith, bellach wedi'i fabwysiadu gan bartneriaid i gefnogi hyrwyddo cyfleoedd i'r farchnad lafur leol yn Wylfa Newydd yn Ynys Môn.

Gan mai gweithiwr cyfredol yw Cadeirydd y PSRh yng Ngogledd Cymru, rydym yn cynnal ein dull arloesol a thryloyw o weithio mewn partneriaeth, a chynnal perthnasau gwaith agos â'n gweithwyr, ein darparwyr addysg a hyfforddiant, a llywodraeth leol a chenedlaethol.

Mae ein gwaith sefydledig ar gynhyrchu Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol blynyddol, yn alinio'n uniongyrchol â, ac yn cefnogi, y datblygiad cyfredol gyda phartneriaid ar y Bid Twf ar gyfer Gogledd Cymru, wrth i ni barhau i gydweithio ar hyrwyddo a phwysigrwydd datblygu sgiliau, symudedd ac uchelgais, mewn rhanbarth ble mae ei marchnad lafur gyfredol ac yn y dyfodol yn dylanwadu, ac yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau traddodiadol, i ardaloedd megis Gogledd-Orllewin Lloegr a Chanolbarth Cymru.

http://regionalskillsandemploymentplan2016.co.uk/cy/

**Trosolwg o Brentisiaethau yng Ngogledd Cymru**

Gan ddefnyddio'r data mwyaf cyfredol sydd ar gael, syrthio wnaeth cyfanswm nifer y prentisiaethau ar draws gogledd Cymru yn 2015 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er y cwymp yn y niferoedd, gwelwyd cynnydd yn y bobl ifanc 20-24 mlwydd oed oedd yn dechrau prentisiaeth yn y rhanbarth gan fod mwy o bobl ifanc yn aros mewn addysg ar ôl eu pen-blwydd yn 16 mlwydd oed, yn yr ysgol, AB neu AU.

Mae'r gwaith o hyrwyddo prentisiaethau yn y rhanbarth yn parhau'n egnïol, gyda phwyslais cynyddol ar fantais prentisiaeth i'r unigolyn a'r cyflogwr, yn cael ei amlygu gan bartneriaid y PSRh yn uniongyrchol, ac ar y cyd drwy ddigwyddiadau a deunyddiau hyrwyddo sy'n cael eu cefnogi a'u hyrwyddo gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru.



Mae cwmnïau blaenllaw yng Ngogledd Cymru, megis Airbus, yn parhau i hyrwyddo a chynnig nifer gynyddol o gyfleoedd prentisiaeth ar draws gwahanol ddisgyblaethau sy'n amrywio o grefftau, technegol a busnes ar wahanol lefelau. Gyda phrentisiaid cyfredol ac i'r dyfodol yn cael eu recriwtio'r Hydref hwn, gall dros 200 prentis fod wedi'u lleoli ym Mrychdyn yn unig.

Mae creu 100 prentisiaeth yn natblygiad CEM Berwyn, ynghyd â thros 20 prentisiaeth gychwynnol newydd ar y gweill eleni yn ystod y gwaith datblygu cynnar yn Wylfa Newydd, yn uno'r cyfleoedd rhanbarthol drwy brentisiaethau sy'n cael eu hyrwyddo a'u cynnig yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd gan ddatblygiadau blaenllaw; tra bod cwmnïau rhanbarthol o bwys, megis Jones Brothers, Rhuthun, yn parhau i ddenu prentisiaid o fannau ledled Cymru yn sgil eu rhaglen datblygu sgiliau flaengar i gefnogi gweithrediadau adeiladu a pheiriannau mawr lefel uchel, mewn prosiectau ledled y rhanbarth a thu hwnt.

**5,565**
PRENTIS BENYWAIDD YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2015 O'I GYMHARU Â 6,710 YN 2014.

**4,190**
PRENTIS GWRYWAIDD YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2015 O'I GYMHARU Â 4,795 YN 2014.

**9,755**
O BRENTISIAETHAU YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2015 O'I GYMHARU Â 11,460 YN 2014.

Gyda dros 67% o fusnesau yng Ngogledd Cymru'n cyflogi llai na phump o bobl, ni ellir tanbrisio'r ddibyniaeth a'r pwyslais ar y sector busnesau Bach a Chanolig (SME) yn economi'r rhanbarth, ac mae llawer ohonynt yn ymgysylltu â'n darparwyr addysg a hyfforddiant i gefnogi a datblygu prentisiaethau. Fodd bynnag, mae dal angen am waith sylweddol i "werthu" manteision prentisiaethau i fusnesau llai - nid oes gan y mwyafrif o'r rhain y fantais o gael staff AD a hyfforddiant pwrpasol, na gwybodaeth a sgiliau defnyddiol eu hunain yn uniongyrchol er mwyn datblygu a chefnogi'r rhaglenni hyn ar eu rhan.

Fodd bynnag, mae ein dau Sefydliad Addysg Bellach yng Ngogledd Cymru, ynghyd â'n darparwyr hyfforddiant preifat, yn parhau i ddarparu cefnogaeth bwrpasol ac ymrwymedig i gyflogwyr llai yn benodol, yn y manteision a'r deilliannau cynaliadwy sy'n cael eu creu i'r cyflogwyr hyn a'u busnesau, drwy gymryd prentis - boed hynny drwy dderbyn cefnogaeth i ddatblygu cynnyrch, ehangu, a sgiliau penodol ychwanegol er budd y busnes, ymysg meini prawf eraill.

Mae cyflwyno'r Ardoll Brentisiaethau wedi creu dryswch a phryder ymysg cyflogwyr yn y rhanbarth - yn enwedig y rhai sydd wedi'u lleoli yn agosach at y ffin â Lloegr, ble mae gweithwyr ar hyn o bryd yn byw yng Nghymru a Lloegr, ac felly'n destun dau ddull gwahanol.

Mae'r ddau Sefydliad Addysg Bellach yng Ngogledd Cymru wedi cyflwyno sesiynau hyrwyddo ar effaith yr Ardoll ar gyflogwyr ac unigolion, yn seiliedig ar y wybodaeth gyfyngedig sy'n dod i'r amlwg sy'n cael ei darparu, ac mae'r ddau sefydliad wedi cofrestru yn Lloegr i gefnogi cyflwyniad y cynllun i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan y ddau ddull gwahanol, ond hefyd i ddarparu arbenigedd gystadleuol yn seiliedig ar brofiad hyd yma, ac nid ar y ffiniau daearyddol cyfredol canfyddadwy.



Fel PSRh, rydym wedi cynnal dadansoddiad llawn o'r gefnogaeth i bobl ifanc 16 i 24 mlwydd oed yn y rhanbarth ac wedi cyhoeddi hyn ar-lein fel dogfen allweddol, ac fel cronfa ddata bwrpasol y gellir ei chwilio, er mwyn cynorthwyo unigolion a darparwyr.

**Yr heriau ar gyfer dyfodol Prentisiaethau yng Ngogledd Cymru**

Er bod darparwyr a partneriaid yn parhau i groesawu cefnogaeth ac arweiniad cyffredinol gan bartneriaid cenedlaethol a gwleidyddion ar swyddogaeth prentisiaethau a'u hyrwyddo, ac yn dymuno parhau hyn ar gyfer Gogledd Cymru fel sy'n briodol, mae sawl her yn parhau i wynebu'r rhanbarth o ran hyrwyddo, hygyrchedd a faint sy'n ymrwymo i brentisiaethau yn gyffredinol. Cesglir a thynnir sylw at y prif heriau isod (nid ydynt wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn benodol):

- ✓ Y canfyddiad ymysg cyflogwyr llai yw mai'r cyflogwyr 'blaenllaw' mwyaf sy'n cael y prentisiaid gorau, gan eu bod yn medru cynnig mwy o sefydlogrwydd a buddion ychwanegol. Mae hyn yn ychwanegu at amharodrwydd rhai cyflogwyr llai i ymgysylltu â darparwyr a chymryd prentisiaid.
- ✓ Mae angen hyrwyddo prentisiaethau'n well mewn ysgolion fel llwybr hyfyw - mae athrawon a rhieni angen mwy o gefnogaeth a gwybodaeth mewn dull cyson a chydlynol ar y buddion a'r cyfleoedd y gall prentisiaeth eu cynnig i berson ifanc yng Ngogledd Cymru.
- ✓ Mae Gyrfa Cymru yn hyrwyddo llwybrau a chyfleoedd o amgylch prentisiaethau, ond yn yr un modd ag yng ngweddill Cymru, rydym wedi gweld gostyngiad o 50% mewn adnoddau a bellach dim ond 67 ymgynghorydd gyrfaoedd sy'n bodoli gyda phob un yn gyfrifol am dair ysgol ar gyfartaledd yn seiliedig ar gytundeb partneriaeth gyda'r ysgolion yn uniongyrchol, ac nid ydynt ond yn medru canolbwyntio ar garfannau penodol ac nid ar grwpiau blwyddyn ehangach.
- ✓ Er ein bod yn parhau i weithio â Gyrfa Cymru, ac wedi cydweithio ar yr adnodd "Spotlight" rhanbarthol cyntaf erioed sydd bellach wedi cael ei gopïo gan eraill, mae'n ymddangos fel nad oes niferoedd mawr yn manteisio arno yn dilyn y negeseuon am y cyfleoedd am brentisiaethau mewn sectorau allweddol a thwf.
- ✓ Er y croesawir cefnogaeth a gwaith hyrwyddo prentisiaethau gan Lywodraeth Cymru, teimla cyflogwyr ac unigolion y gall pethau ganolbwyntio gormod ar Gaerdydd a De Cymru a gwyro at yr ardaloedd hynny.
- ✓ Fel PSRh Gogledd Cymru, mae gennym berthnasau gwaith rhagorol â'n cydweithwyr yn LlC sy'n gweithio'n uniongyrchol yn y maes sgiliau a'r economi, ond mae'r cydweithwyr hynny sy'n gyfrifol am brentisiaethau, gan eu bod wedi'u lleoli yn Ne Cymru, yn aml yn arddangos diffyg dealltwriaeth o'r amrywiaethau rhanbarthol sy'n berthnasol i Ogledd Cymru a'n marchnad lafur ni, a gall hyn rwystro a llesteirio datblygiadau blaengar fel rhan o ddull Gogledd Cymru a thrawsffiniol ehangach i gefnogi ein marchnad lafur gyfredol ac yn y dyfodol.
- ✓ Er mwyn hyrwyddo a chynnal dull sydd wedi'i gydlynu'n rhanbarthol i sgiliau a phrentisiaethau, dylid ystyried datganoli'r cyfrifoldeb i'r rhanbarth fel rhan o Fargen Twf Gogledd Cymru, fel y gellir parhau i weithio'n effeithiol â phartneriaid cenedlaethol, ond cael ymwybyddiaeth ranbarthol glir ac amlwg, ynghyd â mecanweithiau cyflawni sydd wedi'u hanelu at unigolion a chyflogwyr yng Ngogledd Cymru sydd wedi'i ddatganoli o duedd De Cymru bosib o ran y datblygiadau prosiect a chynnyrch a welwyd hyd yma.
- ✓ Gall cydlynu a hyrwyddo prentisiaethau'n rhanbarthol arwain at well ymgysylltiad â chyflogwyr lleol a rhanbarthol yn seiliedig ar y ffaith fod 67% o fusnesau Gogledd Cymru'n cyflogi llai na phump o bobl, ac mae gan Sefydliadau Addysg Bellach, darparwyr hyfforddiant, ac eraill fwy o allu uniongyrchol a phwrpasol i ymgysylltu â'r busnesau hyn yn uniongyrchol, ac felly i gefnogi a hyrwyddo unigolion yn briodol i'r cyfleoedd hyn.



- ✓ Hyd yma, mae'r gwaith o hyrwyddo lleoliadau gwaith wedi bod yn rhagflaenydd cadarnhaol i gefnogi'r bobl hynny o gefndir incwm isel i brentisiaethau - hyn wedi'i dystiolaethu yng Ngogledd Cymru yn sgil y profiadau a gafwyd wrth ddatblygu CEM Berwyn, a'n gwaith gyda phartneriaid gan gynnwys Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Princes Trust, Chwarae Teg, Sefydliadau Addysg Bellach a chontractwyr haen 1 a 2 ar y safle, ynghyd â chwmnïau yn y gadwyn gyflenwi. Mae angen i'r dull hwn a thryloywder y cynnig barhau os ydym am barhau i ddatblygu ymhellach sgiliau a chymwysterau'n gweithlu cyfan ar bob lefel.
- ✓ Mae tystiolaeth fod nifer uwch o brentisiaethau lefel uwch (L4+) yn nwyrain y rhanbarth o gymharu â'r gorllewin (e.e. 140 ym Môn o gymharu â 300 yn Wrecsam), a thra bo dwysedd poblogaeth yn ffactor, mae angen hyrwyddo parhad i lefelau uwch, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion a galw cyflogwyr. Yn ogystal, bydd hyn yn gymorth wrth gynllunio parhad ehangach a chreu talent newydd, yn enwedig yn y sectorau diwydiannau sefydlog ble y bydd angen amnewid eu gweithlu sy'n heneiddio mewn carfannau mawr yn ystod y 5-10 mlynedd nesaf.
- ✓ Yn barod, mae Gogledd Cymru'n arddangos enghraifft dda o hyrwyddo cyfleoedd prentisiaeth benywaidd o fewn sectorau clwstwr diwydiannau sy'n canolbwyntio ar STEM - boed hynny mewn TG a Chyfathrebu yng Ngwynedd, peirianneg yn Sir y Fflint, y diwydiant fferyllol yn Wrecsam ac ynni yn Ynys Môn. Fodd bynnag, mae hyrwyddo cyfleoedd cytbwys i ferched a bechgyn yn parhau'n her i rai cyflogwyr, ac mae angen parhau i fynd i'r afael â'r dasg o hyrwyddo merched i gymryd prentisiaethau mewn diwydiannau sy'n cael eu llywodraethu gan ddynion, ac i'r gwrthwyneb, gyda bechgyn yn cymryd prentisiaethau mewn diwydiannau sy'n cael eu pennu'n anghywir fel rhai ble mae merched yn llywodraethu, megis Iechyd, Gofal Cymdeithasol, y cyfryngau a'r celfyddydau.
- ✓ Cynorthwyo i ddatblygu a chadw sgiliau cyfredol ac yn y dyfodol, rydym angen rhoi mwy o ffocws rhanbarthol ar hyrwyddo prentisiaethau ar gyfer ein poblogaeth gartref, a'r cyfleoedd y gallwn ni eu cynnig fel rhanbarth. Byddai hyn yn cynnwys pwyslais yn bennaf ar y cyflogwyr a'r busnesau o fewn ein tri phrif sector ( *Ynni; Gweithgynhyrchu, Adeiladu*), a phedwar sector twf ( *Creadigol a Digidol; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Twristiaeth a Lletygarwch; Bwyd a Diod*) ar gyfer y rhanbarth, a'r llwybrau sy'n cael eu cynnig yma ganddynt ar y cyd drwy sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, a sgiliau penodol i ddiwydiant y gall prentisiaethau yng Ngogledd Cymru eu cynnig. Yna, byddai'r rhain yn cael eu cefnogi hefyd gan brentisiaethau am gyflogaeth gynaliadwy o fewn ein sectorau economi sylfaenol megis manwerthu a gwasanaethau cyhoeddus, sy'n parhau i gyflogi'r nifer fwyaf o unigolion ar y cyd yng Ngogledd Cymru.

---

**NODIADAU:**

Cadeirydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru yw **Sasha Davies** (Pennaeth Datblygiad Strategol Cymru ar gyfer Horizon Nuclear Power).

Is-gadeirydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru yw **Sioned Williams** (Pennaeth Datblygu Economaidd Cyngor Gwynedd).

Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol BUEGC ar gyfer Sgiliau a Chyflogaeth yw **Iwan Thomas**

**GWEFAN**: http://www.northwaleseab.co.uk/jobs-and-skills/ **Trydar**: @SkillsNWales **YOUTUBE**: https://www.youtube.com/user/skillsnorthwales

